

Gofalwyr Cymorth Gofal Cartref a Gofal Preswyl – Canllaw i Reolwyr (Codi a Chario)

1.0 Dan yr amgylchiadau presennol nid yw'n bosibl darparu hyfforddiant codi a chario "wyneb yn wyneb" i staff sy'n ymgymryd â rôl "Gofalwyr Cymorth". Er mwyn cefnogi'r gwasanaeth a rheoli risg, nodwyd nifer o weithgareddau codi a chario sy'n peri risg uwch, a darparwyd fideos hyfforddi ac arferion gwaith diogel wedi'u dogfennu ar gyfer gofalwyr cymorth a allai fod yn ymwneud â'r gweithgareddau hyn.

Y gweithgareddau hyn yw:

- Rholio corfforol i ffitio sling yn y gwely
- Gosod cynfasau llithro o dan berson ar y gwely a'u defnyddio i ffitio'r sling.
- Codi person o'r gwely i gadair ac yna yn ôl i'r gwely.
- Ffitio sling ar berson sy'n eistedd yn y gadair gan ddefnyddio cynfasau llithro.

2.0 Darperir yr hyfforddiant hwn ar y ddealltwriaeth y bydd gweithwyr cymorth bob amser yn cael eu "paru" â gofalwyr profiadol a chymwys a fydd yn arwain ac yn rhoi cyfarwyddiadau ac yn rheoli gweithgareddau codi a chario.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau codi a chario sy'n cynnwys staff cymorth yn cael eu cynnal yn ddiogel, rhaid i bob rheolwr, goruchwyliwr ac Uwch-ofalwr sicrhau bod y trefniadau canlynol yn cael eu rhoi ar waith a'u cyfleu i bob gofalwr:

1. Dylai'r gofalwyr arweiniol sicrhau bod y gofalwr cymorth wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein - ni ddylai staff cymorth ymgymryd â gweithgareddau codi a chario oni bai eu bod wedi cyrchu'r holl fideos hyfforddiant ac arferion gweithio diogel
2. Cyn dechrau, dylai'r gofalwyr arweiniol egluro'r dasg codi a chario i'r gofalwr cymorth yn llawn, gan gynnwys yr hyn y mae'n ofynnol iddo/iddi ei wneud i gefnogi'r prif ofalwr a sut y dywedir wrtho/wrthi am stopio os bydd yn rhaid atal y dasg
3. Ni ddylai'r gofalwr arweiniol ddechrau unrhyw weithgaredd codi a chario nes ei fod yn fodlon bod y gofalwr cymorth yn deall ei rôl
4. Dylai'r gofalwr arweiniol gyfleu unrhyw bryderon i'r gofalwr cymorth ar unwaith
5. Dylai'r gofalwr arweiniol fonitro'r gofalwr cymorth yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r dasg codi a chario yn ddiogel

3.0 Dylai gofalwyr gysylltu â'u rheolwr llinell i gael cyngor os oes yna unrhyw broblemau yn ystod galwad

4.0 Lle na all rheolwyr gynorthwyo'r gofalwyr, bydd yr Ymgynghorwyr Gweithio'n Ddiogel ar gael yn ystod pob galwad i roi cymorth codi a chario a byddant yn rhoi cyngor drwy Skype neu dros y ffôn. Mae'r manylion cyswllt fel a ganlyn:

- Amanda Strachan (ffôn yn unig)
- Helen Thomas (ffôn a Skype)
- Nerys Morris (ffôn a Skype)

5.0 Dylai gofalwyr arweiniol gwblhau'r rhestr wirio cymhwysedd sy'n atodedig y tro cyntaf y bydd gweithiwr cymorth yn bresennol mewn galwad a'i dychwelyd i'w Rheolwr Llinell. Rhaid cadw hyn fel cofnod o gymhwysedd.